Erbyn hyn yr oedd ganddo ddigon o brofiad a hyder i gymeryd gofalaeth fel Prifathro, a daeth y cyfle, ryw wyth mlynedd ar hugain yn ôl bellac i fod yn brifathro yn ysgol Syr John Rhys Ponterwyd. Bu yno am ddwy flyn edd ar bymtheg, ac yn sgil ei benod yn brifathro Ysgol Penrhyn-coch maw fu'r golled ym Mhonterwyd ar ei ôl. Wrth iddo sefydlu yn ein plith yn y Penrhyn, daethom i'w adnabod yn dda Gŵr o gymeriad arbennig iawn ydyw, ffyddlon a charedig ac yn barod ei gymwynas bob amser. Rai blynyddoedd yn ôl torrodd ei iechyd a gorfu iddo roi'r gorau am gyfnod. Un noson roedd ffair haf yn yr ysgol a ni allai aros gartref. Talodd ymweliad a'r ffair a chyn gynted ag y sylweddolodd y plant ei fod wedi cyrraedd, allan yr aethant i'w gyfarch fel haid o wenyn - arwydd heb amheuaeth o gariad a gofal yr athro drostynt. Roedd pawb yn hapus o'i weld yn gwneud ymdrech i fod yn bresennol.

Rhoddodd Mr. Evans un mlynedd ar ddeg o wasanaeth teilwng iawn ym Mhenrhyn-coch a mawr ein diolch iddo. Bu yn was ffyddlon a diwyd i'r awdurdod addysg, ac ar wahan i ddysgu bu yn Gadeirydd Pwyllgor Mudiad Cynilo'r Sir, Trysorydd o Undeb Athrawon y Sir ac yn Gadeir-ydd Cymdeithas Prif Athrawon Ysgolion Cynradd cylch Aberystwyth.